Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 28ain o Fawrth 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Geraint Price. Mr Roger Phillips (Clerc Tref) Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid) Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Rebecca Butcher.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu.
Anfonodd y SCCH Roger Anthony adroddiad i mewn yn datgan mai ychydig iawn o ddigwyddiadau a fu yn ystod y mis. Fe fydd yn siarad â'r trigolyn sy'n parcio'n amhriodol yn gyson gan flocio'r palmant.

Cof 316 / Maw / 18 Datganiadau o Fuddiant. Dim

Cof 317 / Maw / 18 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Roedd yn cyd-drafod gyda Banc Lloyds ac Adran Priffyrdd CSG ynglŷn â sefydlu gwasanaeth bancio symudol wythnosol yn y prif faes parcio, wedi i'r banc i gau ar y 23ain o Fai 2018.
Byddai'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn rhoi wyneb newydd i'r A483 rhwng Rhydaman a Llandeilo.
Roedd difrod i wal y Sgowtiaid wedi cael ei reportio i'r Gymdeithas Sgowtio Sirol.
Byddai'r Cyng. Christoph Fischer yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd Gŵyl y Synhwyrau.

Cof 318 / Maw / 18 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 28ain o Chwefror 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir, gyda'r cywiriad canlynol:-
Ynglŷn â Cof 294 / Chwef / 18. Cynhaliwyd y noson elusennol a fynychwyd yn y Plough Inn, ac nid y White Hart.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 14eg o Fawrth 2018 yn gofnod cywir, gyda'r cywiriad canlynol:-
Newid *Tref Trawsnewid* i *Tywi Trawsnewid*.

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher y 14eg o Fawrth 2018, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn wedi ychwanegu:-
Cof 313.4 Rhoddodd y Cyng. Edward Thomas adroddiad bras ar Neuadd y Sir. Nodwyd.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 319 / Maw / 18 Doedd dim materion yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol

Cof 320 / Maw / 18 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Presenoldeb CGGSG yn Llandeilo – Prosiect Gwirfoddoli Gwledig.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn cysylltu â CGGSG i ddatgan diddordeb. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.
2. Gŵyl Lenyddol Llandeilo.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn darparu'r cymorth a geisiwyd gan y Cyng. Christoph Fischer, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.
   Cynigodd y Cyng. Geraint Price bod bathodynnau enw yn cael eu paratoi, i arddangos presenoldeb Cynghorwyr yn nigwyddiadau'r Ŵyl. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.
3. Roedd y Cyng. Robert Jones wedi cyflwyno adroddiad ar grŵp dawns Skylark ac Artforge, o Ogledd y Ffindir a Rwsia, a fyddai'n ymweld â'r ardal ar ddechrau mis Gorffennaf. Roeddent yn awyddus i gael cyfle i berfformio mewn digwyddiadau cyhoeddus. Nodwyd.
4. Fields in Trust. Roedd hyn i annog defnydd o leoedd hamdden segur. Byddai'r ohebiaeth yn cael ei flaenyrru i'r Cynghorydd Sir Edward Thomas.

Cof 321 / Maw /18 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Laurie Davies, Llywodraeth Cymru, ynglŷn ag ymgynghoriad papur gwyrdd ar Gryfhau Llywodraeth Leol a Chyflawni dros Ein Pobl. Nodwyd.
2. Richard Evans, Arcadis, ynglŷn â'r Ffordd Osgoi. Roedd Mr Evans wedi cyfarfod gyda'r Cyng. Edward Thomas a'r Clerc. Nodwyd.

Cof 322 / Maw / 18 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Hallams Catering Equipment Ltd	£ 23.74	£ 4.75	£ 28.49
Cleifi Harpwood (Dathlu Dewi)	£ 300.00		£ 300.00
Band Llydan BT	£ 55.00	£ 11.00	£ 66.00
Nwy Prydain (trydan) dd	£ 78.05	£ 8.90	£ 91.58
CGGC (gwein cyflogres Mawrth)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30
D.Thomas DD 668PLQ	£ 230.00	£ 46.00	£ 276.00
D.Thomas DD 634PLQ	£ 50.00	£ 10.00	£ 60.00
D.Thomas DD633 PLQ	£ 110.00	£ 22.00	£ 132.00
D.Thomas DD652 PP	£ 75.00	£ 15.00	£ 90.00
D.Thomas DD631PLQ	£ 50.00	£ 10.00	£ 60.00
D.Thomas DD622PLQ	£ 45.00	£ 9.00	£ 54.00
D.Thomas DD589	£ 145.00	£ 29.00	£ 174.00
Clerc (tâl post)	£ 17.34		£ 17.34

Tom Bristow (wal gerrig PLQ)			£ 4,050.00
Tom Bristow (banc pridd a stepiau)			£ 2,150.00
Hugh Evans Fencing (ffensio PLQ)	£ 1,330.00	£ 266.00	£ 1,596.00
Terry Davies DD664PP	£ 20.00	£ 4.00	£ 24.00
Terry Davies DD666PLQ	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00
Terry Davies DD662 (baneri)	£ 148.00	£ 29.60	£ 177.60
Terry Davies DD663PLQ	£ 30.00	£ 6.00	£ 36.00
CSG (goleuadau llwybr troed)	£ 694.32	£ 138.87	£ 833.19

dd - debyd uniongyrchol # - siec * - bacs.

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Christoph Fischer ac eiliwyd gan y Cyng. Geraint Price. Roedd pawb o blaid.

Cof 323 / Maw / 18 Materion Ariannol Eraill

1. Y Parchedig Michael Sadler, llythyr gyda chais am rodd tuag at gynnal a chadw'r fynwent. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y swm o £1,000 a gyllidwyd, yn cael ei roddi, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gordon Kilby. Roedd pawb o blaid. Byddai unrhyw newid i roddion yn y dyfodol yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Rhagfyr.
2. Roedd y Swyddog Cyllid wedi dosbarthu taenlenni o ffigyrau'r gyllideb bresennol. Roedd wedi gofyn i'r Aelodau i gyd i astudio'r rhain yn ofalus cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Ebrill. Bydd Mr Plummer yn paratoi cyfres arall o ffigyrau'r gyllideb mewn paratoad ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

   Byddai'r Swyddog Technegol yn cynnal adolygiad o holl Asedau Sefydlog y Cyngor.

Cof 324 / Maw / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Byddai'n blaenyrru adroddiad ar yr holl waith sydd angen ei wneud ym Mharc Le Conquet. Dywedodd fod Network Rail wedi cwblhau gwaith cynnal a chadw ar y llwybr troed rhwng yr Orsaf Drenau a Heol Alan.

Cof 325 / Maw / 18 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau

Adroddodd y Cyng. Edward Thomas ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fawrth.
Rhoddwyd cyfarwyddiadau am i waith i gael ei gwblhau ym Mharc Le Conquet, sef ailadeiladu wal gynnal y cwrt tenis, gorchudd ceblau'r Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) a mynedfa newydd i'r trydydd cwrs tenis.
Byddai'r brydles gyda CSG yn cael ei harwyddo ym mis Ebrill neu fis Mai, o'r diwedd, a dywedwyd fod yr oedi oherwydd nifer y Cynghorau sydd wedi optio i Drosglwyddo Asedau. Yn y cyfamser, roedd CSG yn talu symiau chwarterol o'r arian cynnal a chadw y cytunwyd.
Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby bod y cynnydd a argymhellwyd yn nifer y CCTV, o 8 i 16 am bris o £239, yn ogystal â gosod gorchudd ceblau ychwanegol yn ei le am bris o £110, yn cael eu hawdurdodi, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.
Gobeithiwyd y gellid trefnu digwyddiad ym mis Mai, i ddathlu agoriad y cyfleusterau newydd.
Cytunwyd i anfon llythyrau i'r trigolion sy'n byw'n agos i'r parc, i roi gwybod iddynt fod CCTV yn cael ei osod.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bleidlais o ddiolch i'r tri Swyddog, sef Desmond Davies, Christopher Plummer a Roger Phillips, am yr holl waith ychwanegol a wnaethant i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud. Roedd pawb o blaid.

Cof 326 / Maw / 18 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd

Cof 327 / Maw /18 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer ei adroddiad ar y digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor.

Cof 328 / Maw / 18 Adroddiadau Eraill

i) Dathlu Dewi.

Rhoddodd y Cyng. Robert Jones fanylion am y digwyddiadau a aildrefnwyd, wedi iddynt gael eu gohirio oherwydd y tywydd gwael a gafwyd ar ddechrau mis Mawrth. Byddai cyngerdd yr ysgolion yn cael ei gynnal ar nos Iau'r 26ain o Ebrill, yng Nghapel Newydd am 7.00yh. Gofynnwyd i'r Clerc i wahodd Meiri'r Cynghorau cyfagos.

ii) Adroddiad Is-grŵp Neuadd y Sir

Roedd y Cyng. Edward Thomas a'r Swyddog Cyllid wedi cyfarfod gyda Mr John Gravelle, CSG, mewn perthynas â thaliadau ardrethi yn y dyfodol. Amcangyfrifwyd bod y rhain yn dod i gyfanswm o £8,800. Byddai cais yn cael ei wneud am ddisgresiwn adran 44, a byddai Neuadd y Sir yn cael ei datgan yn wag o fis Awst 2018. Byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystafell bwyllgor YAD yn y dyfodol, am bris o £20 fesul cyfarfod. Roedd datrysiadau storio yn y dyfodol yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd.

Cof 329 / Maw / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.